

**TYSTYSGRIF
CYMHWYSEDD
ADDYSG**

06.03.17

HEDDIW, BYDDWN YN:

- Cyfnewid syniadau cyflym ar wella sgiliau llythrennedd y plant
- Adolygu'r hyn rydym yn ei wybod
- Canolbwyntio ar drawsieithu

SGILIAU TRAWSIEITHU

**GYDA DIOLCH I GYNLLUN SABOTHOL CENEDLAETHOL
CWRS BYR GLANNAU DYFRDWY
MAI 2011**

TRAWSIEITHU

Beth yw trawsieithu a sut mae ei ddefnyddio?

Y diffiniad symlaf yw sefyllfa lle rydym yn **derbyn gwybodaeth** mewn un iaith ac yn ei **defnyddio** yn y llall e.e.

Darllen yn Saesneg > Ysgrifennu yn Gymraeg;

Gwranddo yn Saesneg > Siarad yn Gymraeg

TRAWSIEITHU

Felly, yn syml, **trawsieithu** yw:

- chwilio am y **prif syniadau** mewn darn (e.e. Saesneg)
- cyfleu'r **prif syniadau** hyn yn yr iaith arall (e.e. Cymraeg) gan gadw'r iaith mor syml a dealladwy ag sy'n bosibl

CANLLAWIAU TRAWSIEITHU

- ❑ **darllen** darn yn sydyn ac yn arwynebol (sgimio) er mwyn cael syniad o'r cynnwys
- ❑ **chwilio am y prif bwyntiau** – eu tanlinellu; eu hamlygu (*highlight*); gwneud pwyntiau bwled neu greu map meddwl ohonynt
- ❑ gwneud nodiadau **yn Gymraeg heb edrych ar y gwreiddiol** os gallwch chi

CANLLAWIAU TRAWSIEITHU

☐ cyflwyno'r prif bwyntiau yn eich **geiriau eich hun** (dim **cyfieithu** air am air)

☐ drafft cyntaf

☐ Cofiwch hefyd:

- peidio ag ychwanegu eich barn / eich syniadau eich hun
- dim enghreifftiau, oni bai eu bod yn hanfodol
- ysgrifennu mewn brawddegau clir

CANLLAWIAU TRAWSIEITHU

☐ ailysgrifennu'r cyfan yn fwy effeithiol gan gofio:

- sicrhau eich bod wedi cynnwys y prif bwyntiau yn eich geiriau eich hun
- crynhoi i tua un rhan o dair
- brawddegau byrion (nid un frawddeg hir)
- peidio ag ailadrodd pwyntiau

CANLLAWIAU TRAWSIEITHU

☐ Cofiwch hefyd roi sylw i gywirdeb iaith :

- sillafu; geirfa / termau; cenedl enwau
- gwallau cyffredin
- treigladau
- brawddegau'n gywir
- pwyntiau'n llifo'n naturiol ac yn gydlynus

- Defnyddiwch Cysgliad

DILYN TREFN Y SAESNEG – SAESNEG YN GYMRAEG

Mae'n gwneud y Gymraeg yn aneglur a gwneud i'r
brawddegau swnio'n
annaturiol er enghraifft:

Nodwch **yr** ansawdd **o'r** atebion > *Make a note of **the** quality **of the** answers*

Ysgrifennwch hwn lawr > Ysgrifennwch hwn

Mae angen meddwl beth yn union ydy ystyr y Saesneg a sut
buasen ni'n

dweud hyn mewn ffordd glir, syml a naturiol yn Gymraeg.

SGILIAU LLYTHRENNEDD

- Y Cyfnod Sylfaen
- Chwileiriau
- Geiriau ‘gr’, ‘cl’ ac yn y blaen – ysgrifennu’r gair o dan y llun.
- Anagramau syml
- Gosod brawddegau mewn trefn
- Enfys eiriau
- Geiriau amllder uchel – sillafu, eu gosod mewn brawddegau...